

CYDBWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 23 Ionawr, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Cadeirydd); Cynghorydd S.C. Lloyd-Selby (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, I. Buckley, A.M. Collins a J.M. Norman.

Cynrychiolydd o'r Sector Gwirfoddol: Cynghorydd C. Hawkins (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr G. John, Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne a M.R. Wilson.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd C. Iannucci a L. Newton (Caerdydd a'r Fro Gweithredu dros lechyd Meddwl).

EITEM AGENDA 2. PENODI IS-GADEIRYDD ANRHYDEDDUS O GYNRYCHIOLWYR Y SECTOR GWIRFODDOL AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG –

CYTUNWYD – Gohirio'r penodiad tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Rheswm dros y penderfyniad

Yn absenoldeb cynrychiolwyr o'r Sector Gwirfoddol yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

CYTUNWYD - CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd S.C. Lloyd-Selby fuddiant personol yn Eitem 5 ar yr Agenda – Cefnogaeth Costau Byw ar gyfer Bwyd, Mannau Cynnes a Dulliau Cefnogi Eraill, a hithau'n Ymddiriedolwr Banc Bwyd yn y Barri, ond dywedodd nad oedd hyn yn gyfystyr â buddiant sy'n rhagfarnu fel yr adroddiad. cyn i'r Pwyllgor roi diweddariad cyffredinol ar y gwaith yr oedd y Cyngor wedi'i wneud hyd yma.

EITEM AGENDA 5. CEFNOGAETH COSTAU BYW AR GYFER BWYD,
MANNAU CYNNES A DULLIAU CEFNOGI ERAILL (PW) –

CYTUNWYD –

- (1) Nodi'r adroddiad ac Atodiad A.
- (2) Bod diweddariad pellach ar y gwaith a wnaed yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Rheswm dros y penderfyniadau

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Diweddaru a hysbysu'r Pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud.

EITEM AGENDA 6. ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (PW) –

Nodi'r cynnydd y manylwyd arno yn yr adroddiad mewn perthynas â'r heriau o fewn y Cynllun Her Newid Hinsawdd.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.